Cynnwys

1 Croeso
2 Cymru'n Un - Un Rhwydwaith
4 Grym cydweithredu
6 Llywodraeth Leol
7 Iechyd
8 Addysg Uwch ac Addysg Bellach
9 Y Gymuned Ehangach
10 Cymryd y cam nesaf
14 Cysylltiadau

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Croeso

Mae'r pamffled hwn wedi cael ei ddylunio i roi amlinelliad o statws presennol gweithgaredd Band Eang Cyfun y Sector Cyhoeddus (PSBA) ac o ddarparu'r hyn a gredwn yw un o Rwydweithiau'r Genhedlaeth Nesaf cyntaf yn y byd wedi ei adeiladu i wasanaethu anghenion pob corff sector cyhoeddus ar raddfa genedlaethol.

Cymru'n Un - Un Rhwydwaith

Mae rhwydweithiau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn hanfodol ar gyfer darparu Gwasanaethau Cyhoeddus modern ar draws y byd. Dyma enaid llywodraeth, yn cario'r wybodaeth hanfodol sy'n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n effeithiol i ddinasyddion - yn cysylltu pobl, adeiladau a gwybodaeth drwy gyfrwng llais, fideo a data.

Yn draddodiadol, mae sefydliadau Sector Cyhoeddus wedi adeiladu rhwydweithiau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn i adeiladau a chyflogedigion gan ddefnyddio llawer o gyflenwyr a nifer o dechnolegau i gyflawni eu nod.

Erbyn hyn, mae'r ffocws ar y cam nesaf ar y daith: cydgyfeirio'r gwasanaethau hyn, defnyddio Protocol y Rhyngrwyd (IP), y Rhyngrwyd, band eang a gwasanaethau symudol.

Mae'r blynyddoedd nesaf yn cynrychioli trobwynt gwirioneddol ar gyfer y rhwydweithiau TG allweddol sy'n cynnal gwasanaethau iechyd, addysg, llywodraeth a gwasanaethau lleol yng Nghymru. Am y tro cyntaf byddwn yn gweld un platfform cludo cyfathrebu a gwybodaeth fydd yn gallu cydgrynhoi'r galw am gysylltedd cyflym iawn ar draws sectorau gwahanol - a throsoli'r isadeiledd TGCh cyfredol a'r wybodaeth sydd o'i fewn er budd rhyw dair miliwn o ddinasyddion a 300,000 o gyflogedigion y sector cyhoeddus. Enw'r platfform newydd hwn yw 'Rhwydwaith y PSBA'.

Gan adeiladu ar brofiadau ac arbenigedd a gasglwyd drwy weithredu rhwydweithiau Sector Cyhoeddus presennol, bydd yr ased hwn yn sicrhau gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru: Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru.


EMERGENCY

Grym cydweithredu

Mae prosiect PSBA wedi bod yn weithgaredd cydweithredu enfawr ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ers ei gychwyn yn 2004. Mae hyn wedi arwain at greu Partneriaeth PSBA sef yr enw sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl gyrff Sector Cyhoeddus sy'n cyllido ac yn defnyddio Rhwydwaith PSBA. Mae Cyflenwr Rhwydwaith PSBA, Logicalis (UK) Ltd, hefyd yn rhan o'r bartneriaeth hon.

Darllenwch ymhellach i ddysgu am gefndir, hanes, rhesymwaith a photensial cyffrous y bartneriaeth rhwydwaith arloesol hon.



Llywodraeth Leol

Rhwydweithiau Awdurdodau Unedol

Mae Awdurdodau Unedol o bob cwr o Gymru wedi adeiladu ac esblygu eu rhwydweithiau llais, fideo a data corfforaethol eu hunain dros flynyddoedd lawer er mwyn cyrraedd yr adeiladau sy'n gyfrifoldeb iddynt - yn ogystal â buddsoddi mewn cyfathrebu symudol i gefnogi cyflogedigion ar daith.

Yn draddodiadol, mae awdurdodau wedi adeiladu eu rhwydweithiau aml-gyfryngol eu hunain i gwrdd ag anghenion penodol a newidiol eu defnyddwyr. Er bod gan bob awdurdod ei ofynion unigryw ei hun, mae pob un hefyd yn rhannu llawer o dir cyffredin yn y ffordd y mae rhwydweithiau'n cael eu hadeiladu - gyda nodweddion fel diogeledd, gwydnwch a natur hollbresennol band eang.

Ysgolion

Mae wyneb addysg yng Nghymru yn newid, gyda mwy o ysgolion nag erioed wedi eu cysylltu erbyn hyn. Yn fwyaf amlwg, mae gan ddisgyblion, yn llythrennol, fyd o wybodaeth ar flaenau eu bysedd diolch i rym y Rhyngrwyd.

Ond megis dechrau yw hyn. Mewn gwirionedd, mae ysgolion bellach yn defnyddio popeth o fyrddau gwyn rhyngweithiol i gynadleddau fideo er mwyn galluogi disgyblion ac athrawon i gyfathrebu gyda'i gilydd o bell.

Gall athrawon gydweithio i ddatblygu a rhannu adnoddau, cael mynediad at wybodaeth rheoli ysgolion, olrhain cynnydd disgyblion a darparu adborth.

Canolfannau Dysgu TGCh

Mae Canolfannau Dysgu TGCh yn darparu pont bwysig rhwng ysgolion a dysgu yn y gymuned, gan roi amrywiaeth o wasanaethau, yn ogystal â mynediad i'r Rhyngrwyd, i bawb - plant, oedolion a theuluoedd cyfan.

Llyfrgelloedd

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ddarparu mynediad i gyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd am ddim i'r cyhoedd ym mhob llyfrgell gyhoeddus. Erbyn hyn, bydd pobl Cymru'n ymweld â'r llyfrgell bron 15 miliwn o weithiau bob blwyddyn.

Mae'n blatfform cyfathrebu sy'n galluogi'r symudiad tuag at ffyrdd cwbl newydd a mwy effeithiol o addysgu, dysgu, hygyrchu a rhannu gwybodaeth - y cyfan yn cyfrannu tuag at well gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru

Iechyd

Rhwydweithiau GIG Cymru

Am yn agos i 20 mlynedd mae Rhwydwaith Digidol GIG Cymru Gyfan wedi bod yn sylfaen dechnolegol i GIG Cymru, yn cludo holl gyfathrebu llais, data a fideo dros un rhwydwaith.

Bydd defnyddio techneg a thechnolegau fideo newydd yn cael effaith radical ar ansawdd bywyd cleifion gyda chyflyrau hirdymor, yn ogystal â lleihau faint o amser y maen nhw'n ei dreulio yn yr ysbyty.

Mae GIG Cymru hefyd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r Rhyngrwyd. Mae gan weithwyr clinigol proffesiynol sy'n gweithio o'u cartrefi'r gallu i gael mynediad at wybodaeth allweddol drwy ddefnyddio band eang diogel.

Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd

Ar hyn o bryd mae GIG Cymru wedi cysylltu pob practis meddyg teulu a meddygfeydd cangen yn uniongyrchol i rwydwaith Cymru Gyfan y GIG.

Mae gan y 15 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru o leiaf un cysylltiad mawr gyda'r isadeiledd craidd hwn. Ar ben hyn, maen nhw'n gweithredu ac yn rheoli eu rhwydwaith lleol eu hunain, yn estyn allan i bob un o leoliadau'r ymddiriedolaeth.

Ar lefel uwch, mae GIG Cymru wedi'i gysylltu gyda nifer o strwythurau GIG y DU er mwyn sicrhau cyfathrebu rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban.

I GIG Cymru, ymysg pethau eraill, gall Rhwydwaith y PSBA fod yn alluogydd ar gyfer cydweithio a chydlynu mwy effeithiol ar draws sectorau. Drwy ymestyn cyfuniad, gellir datblygu ymhellach y cysylltedd rhwng gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg i gefnogi gweithio amlasiantaethol, gan adeiladau ar y cynnydd sydd wedi digwydd hyd yn hyn.

Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Mae datblygiadau mewn technoleg rhwydweithio wedi rhoi mynediad at gyfoeth o adnoddau ac ystorfeydd dysgu arlein; ac mae adnoddau rhwydwaith yn cynnwys ebost, fideo gynadledda, negeseuon gwib a blogio wedi helpu i gysylltu grwpiau ymchwil sy'n bell oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol.

Rhwydweithiau presennol Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Yng Nghymru, mae gan y sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach reolaeth annibynnol dros ddatblygu a gweithredu eu rhwydweithiau lleol eu hunain (y campws) a'r rhwydweithiau ardal eang (aml-gampws).

Nes yn gymharol ddiweddar, roedd gofynion rhyng-gysylltu a Rhyngrwyd yn cael eu darparu gan ddau rwydwaith ardal eang ar wahân yng Ngogledd a De Cymru.

Mewn gwirionedd, estyniad o JANET ® oedd pob rhwydwaith rhanbarthol - sef rhwydwaith addysg ac ymchwil y DU sy'n cysylltu sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach, cynghorau ymchwil, colegau arbenigol, a darparwyr addysg oedolion a chymunedol.

Cymwysiadau a Phrosiectau

Mae Rhwydwaith Fideo Cymru wedi datblygu'n gyflym i fod yn un o gyfleusterau mwyaf fideo-gynadledda mewn stiwdio yn Ewrop gyda phob sefydliad Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru yn meddu ar o leiaf un stiwdio sy'n gallu cynnal cynadleddau aml bwynt gydag ansawdd fideo a sain teledu rhithwir.

Ymchwil arbenigol

Diolch i'w gallu i gynnal band eang ar lefel uchel, mae'r rhwydweithiau hyn yn galluogi sefydliadau ymchwil i gynnwys llawer iawn o ddata ar bynciau yn amrywio o ffiseg a pheirianneg, i brosesu delweddau lloeren, gwyddor gyfrifiadurol a gwyddor iechyd.

Y Gymuned Ehangach

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhwydwaith fach sy'n cefnogi busnes Aelodau Cynulliad (ACau) yng Nghymru, ond mae'n un arwyddocaol mewn perthynas â rhedeg y corff deddfwriaethol i Gymru yn effeithiol. Yn ogystal â'r prif safleoedd, mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn swyddfeydd etholaethau'r aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gysylltiedig.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r corff gweithredol sy'n gyfrifol am Lywodraeth yng Nghymru yn cefnogi bron tair miliwn o bobl yng Nghymru ac mae ganddo rwydwaith telegyfathrebu mawr sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng pobl ac adrannau mewn modd diogel

Mae gwasanaethau teleffoni'n cael eu darparu ar gyfer tua 6000 o Weision Sifil ac mae datrysiad fideo gynadledda unswydd yn cysylltu safleoedd amryfal, gan leihau amser teithio drud a galluogi cyflawni ôl troed carbon is.

Rhwydweithiau Gwasanaethau Brys

Er bod y defnydd gan fusnesau'n bwysig, mae'r rhwydweithiau sy'n sylfaen i'r gwasanaethau "golau glas" yn hanfodol.

Heddiw, mae gan Gymru gymysgedd o wasanaethau datganoledig ac annatganoledig yn ei hadrannau Ambiwlans, Heddlu, Tân a Gwylwyr y Glannau, yn aml gyda gofynion gweithredol penodol dros ben, yn cynnwys defnyddio technolegau diwifr datblygedig megis Terrestrial Trunked Radio (TETRA).

Sefydliadau Eraill

Mae llawer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae gan bob un ohonynt anghenion o ran gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan lawer ohonynt eu rhwydweithiau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Awdurdod y Parciau Cenedlaethol
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Y Gwasanaeth Amgueddfeydd
- Traffig Cymru
- Amgylchedd Cymru
- Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol

Mae'r amcan yn glir: i gynyddu ansawdd a maint y rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyflwyno gwell gwasanaeth i bobl Cymru

Cymryd y cam nesaf

O ran gweithredu a defnyddio technoleg mae Cymru'n amlwg yn cyfrannu'n fwy na'i chyfran.

Er hynny, yr un her fawr i'r wlad yw llwyddo rhywsut i gadw'r gallu i gysylltu ac integreiddio rhwydweithiau gwahanol mewn modd sy'n ddiogel, yn hyblyg, yn gost effeithiol, ac sy'n parhau i wella bywydau pobl Cymru.

Bydd angen ymarferoldeb pwerus ac, yn bwysicaf oll, cyflym iawn ar y genhedlaeth newydd o wasanaethau a alluogir gan IP - boed yn ddiagnosis meddygol drwy gyfrwng fideo neu addysgu plant mewn dosbarthiadau rhithwir.

Yn awr, mae hyn yn troi'n realiti ar ffurf y Rhwydwaith PSBA sy'n darparu'r platfform gwirioneddol ar gyfer yr holl rannu gwybodaeth yng Nghymru, wedi'i agregu i ddarparu cyflymdra uchel iawn ar y Rhyngrwyd a'r gost isaf posibl - gan roi i'r trethdalwr yng Nghymru y gwasanaeth a'r gwerth am arian gorau posibl.

Ar wahân i arbed arian, bydd y rhwydwaith yn cynnig amryw o fanteision eraill, gan yrru cynhyrchiant ac Ansawdd Gwasanaeth drwy lwyddo i alluogi cynyddu a gwella rhannu data rhwng gwahanol adrannau llywodraeth a hyd yn oed gyflwyno gwasanaethau cyfun.

I gychwyn, yn ystod 2008 bydd y rhwydwaith hwn yn cwmpasu'r gofynion cyfathrebu ar gyfer hyd at 1,000 o safleoedd yng Nghymru gyda'r cyflymder yn amrywio o 2Mbps i 2.5Gbps. Bydd ganddo'r potensial i ehangu hyd at 5,500 o safleoedd.

Bydd yn cyffwrdd â phob cornel o'r gwasanaethau cyhoeddus, o lywodraeth leol i iechyd, addysg, gwasanaethau brys a Llywodraeth Cynulliad Cymru – ac, wrth gwrs, y cyhoedd eu hunain, fydd yn cael cyfle cynyddol i dderbyn gwasanaethau fydd yn gallu gwella ansawdd eu bywyd.

Gwasanaeth Cyhoeddus cydgysylltiedig

Ond yn y pen draw, cyfrwng yn unig yw technoleg - ac nid yw'r rhwydwaith Cymreig yn wahanol yn hynny o beth yn yr ystyr mai galluogydd ydyw.

Yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bapur arloesol ar Greu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru. Mae'r papur yn amlinellu gweledigaeth at y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru: Yn bennaf, Cymru gydgysylltiedig fydd yn cyflwyno gwasanaethau mewn modd cydlynol a chytûn.

Bydd y rhwydwaith cyfathrebu a gwybodaeth sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd nid yn unig yn gwireddu'r weledigaeth hon, ond bydd hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer integreiddio a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol i'r sector cyhoeddus ac i bobl Cymru.

Cyflwyno ac integreiddio

Mae'n ffaith nad yw technoleg yn aros yn ei hunfan. Ni fydd systemau a rhwydweithiau sy'n gwneud y gwaith heddiw yn ddigonol yn y blynyddoedd a ddaw. Yn y pen draw, mae ar y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus angen yr offer gorau posibl i wneud eu swyddi - a dyna pam mae platfform unigol, hyblyg a graddiadwy mor hanfodol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y blynyddoedd nesaf yn golygu ymdrech gan bawb i weithio gyda phartneriaid ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus perthnasol i ddisodli'n raddol hen rwydweithiau'r GIG yng Nghymru, y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r rhai sy'n gwasanaethu'r Awdurdodau Unedol.

Yn yr un modd, bydd cyfle i gontractau eraill y sector cyhoeddus sy'n dod i ben ar rwydweithiau ardal eang bresennol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf gysylltu gyda'r Rhwydwaith PSBA.

Fodd bynnag, ni fydd y rhwydwaith gwybodaeth a chyfathrebu datblygedig a'i fanteision yn cael ei gyfyngu i'r sectorau hyn. Bydd cydweithio gyda phawb o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn helpu i gynnal gwelliannau i wasanaethau ar gyfer miliynau o bobl, gan alluogi amrediad mawr o sefydliadau cyhoeddus i rannu gwybodaeth ac i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth fwy effeithiol.

Manteision

Mantais fwyaf uniongyrchol un rhwydwaith yw'r lleihad enfawr mewn costau band eang ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru - sydd, wrth gwrs, yn golygu gosod llai o faich ar boced y trethdalwr.

Drwy gyfuno ymdrech a gwariant mewn un platfform technoleg sy'n cael ei reoli gan un gwerthwr, bydd Cymru'n medi enillion enfawr mewn cynhyrchiant.

Fydd dim angen bellach i sectorau unigol gaffael a phwrcasu eu gwasanaethau rhwydweithio ardal eang eu hunain. Yn hytrach, bydd pawb yn defnyddio platfform technoleg wedi ei ffurfio allan o elfennau rhwydwaith mewnol cyffredin.

Ar ben hyn, bydd cost caffael y llu gwasanaethau a gynigir drwy'r rhwydwaith yn cael ei lleihau yn syml oherwydd maint y defnydd a'r arbedion dilynol oherwydd maint y gwaith.

Bydd y manteision eilaidd, mae'n debyg, yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu, gan y byddant yn ddibynnol ar amryw o brosiectau, mentrau ac anghenion adrannau.

Fodd bynnag, mae'r amcan yn glir: cynyddu ansawdd a maint y rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyflwyno gwell gwasanaeth i bobl Cymru.

Mae fideo gynadledda'n un enghraifft o hyn - lle gallai gweithwyr proffesiynol o wahanol sectorau ac ardaloedd ddod at ei gilydd i gyflwyno gwasanaethau o well ansawdd am gost isel.

Gellid hefyd gyfuno gwasanaethau agregu lleol ac yn wir gwasanaethau dylunio rhwydweithiau, er mwyn darparu gwell integreiddio, hygyrchedd a chydweithredu.

Cyllido

Mae prosiect o'r maint hwn yn golygu buddsoddiad enfawr - a dyma'r union reswm pam y bydd y costau ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith yn hynod o dryloyw.

Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

- Adeiladau a rheoli gwasanaethau band eang a rhyng-gysylltiadau â rhwydweithiau eraill.
- Darparu cefnogaeth i gwsmeriaid, datrys problemau a rheoli gwasanaethau.
- Caffael gwasanaethau cysylltedd (h.y. argaeledd, ystod band, hydwythedd a diogeledd) o farchnadfa telecoms.

Mae'r mudo i'r Rhwydwaith PSBA eisoes wedi cychwyn. Gyda rhai sectorau a sefydliadau, mae'r archeb gychwynnol eisoes wedi cael ei gwneud - gydag eraill mae hynny ar fin digwydd. Yn y naill achos a'r llall, gallwch fod yn dawel eich meddwl fod cefnogaeth a chyngor wrth law i'ch helpu yn y broses o wneud penderfyniadau.

Pwy yn union fydd yn talu?

Mae pob un o'r sectorau sy'n bartneriaid gyda ni wedi cyfrannu tuag at un gyllideb gyfun i ddarparu'r rhwydwaith mewnol craidd ar gyfer y prosiect.

Mae'r rhwydwaith mewnol yn cynnwys elfennau sy'n gyffredin i bawb, yn cynnwys datblygu a defnyddio'r rhwydwaith ei hun, gwasanaethau cefnogi megis desg gymorth; ynghyd â phorth gwasanaeth, monitro ac adrodd am wasanaethau, anfon biliau a chefnogaeth dylunio technegol.

Llywodraethu

Mae'r prosiect hwn yn cael ei lywodraethu'n llym iawn gan fwrdd strategaeth; bwrdd rheoli; tîm gweithredu a chyflwyno gwasanaethau; awdurdod dylunio technegol; a bwrdd ymgynghori ar newid. Ar ben hyn, bydd gan sectorau sy'n bartneriaid fesurau llywodraethu ychwanegol yn eu lle.

Bydd tîm craidd o Lywodraeth Cynulliad Cymru'n rheoli'r gwahanol weithgareddau a'r rhyngweithio rhwng Logicalis y cyflenwr a chleientiaid sectorau, yn cynnwys adeiladu a datblygu craidd; rheoli gwasanaethau; cydymffurfio ac ansawdd gwasanaethau; ac achredu diogeledd.

Drwy gyfuno ymdrech a gwariant mewn un platfform technoleg sy'n cael ei reoli gan un gwerthwr, bydd Cymru'n medi enillion enfawr mewn cynhyrchiant.

Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA

Yn 2007, dyfarnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gontract saith mlynedd gwerth £74 miliwn i Logicalis i gyflenwi rhwydwaith band eang uchel TGCh unigryw ac unedol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru – sef y Rhwydwaith PSBA.

Mae Logicalis yn gyflenwr rhyngwladol o ddatrysiadau TGCh integredig, gan ddarparu rhwydwaith mewnol a gwasanaethau cyfrifiaduro a chyfathrebu diogel a chyfun. Mae Logicalis wedi ennill ardystiad annibynnol i'w system reoli integredig, diogeledd gwybodaeth, cynigion rheoli gwasanaethau TG a'i safonau amgylcheddol: ISO 9001; ISO 27001; ISO 20000 ac ISO14001 yn eu trefn.

Dan y contract bydd Logicalis yn darparu'r dylunio, y trefnu, yr integreiddio a'r rheoli ar gyfer y Rhwydwaith PSBA. Mae gwaith PSBA Logicalis wedi'i leoli yn eu swyddfeydd yn Nantgarw ger Caerdydd.

Cyflwyno gwasanaethau gwell

Yn 2008 dechreuodd y Rhwydwaith PSBA ddarparu cysylltedd cyflym iawn ar gyfer addysg yng Nghymru, yn gwasanaethu ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau dysgu TGCh a swyddfeydd corfforaethol yr awdurdodau unedol eu hunain.

Mae'r Rhwydwaith PSBA yn cysylltu defnyddwyr y Sector Cyhoeddus yng Nghymru gyda'i gilydd, yn ogystal â gyda rhwydweithiau allweddol eraill yn cynnwys y Rhyngrwyd – y cyfan yn gyflym iawn.

Golyga hyn i gyd fod y rhwydwaith yn fwy na dim ond rhwydwaith ffisegol o geblau. Mae'n blatfform cyfathrebu sy'n galluogi'r symudiad tuag at ffyrdd cwbl newydd a mwy effeithiol o addysgu, dysgu, hygyrchu a rhannu gwybodaeth - y cyfan yn cyfrannu tuag at well gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru.

Mae pawb yng Nghymru'n debyg o elwa yn sgil cymunedau sydd wedi cysylltu ac sy'n cymryd mwy o ran mewn dysgu, yn meddu ar well cymwysterau ac wedi eu haddysgu i lefel uwch. Ar gyfer unigolion, mae gwell addysg yn arwain at well cyflogadwyaeth, llwyddiant ariannol a mwynhau bywyd yn well. I Gymru gyfan, bydd yn arwain at economi mwy cystadleuol, diwylliant mwy bywiog a chymdeithas iachach.

Bydd y rheiny ohonom sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn ennill hefyd, yn sgil y llu ffyrdd y mae band eang yn galluogi gwell cyfathrebu rhwng dinasyddion Cymru a'n llywodraethau lleol a chenedlaethol – hyn i gyd yn arwain at well darpariaeth o wasanaethau am bris rhatach.

the psba network

Cysylltiadau ar gyfer ‘Rhwydwaith PSBA’ a ‘Phartneriaeth PSBA’

Mae'r gweithgareddau sy'n digwydd i ddarparu'r Rhwydwaith PSBA yn cael eu diweddaru'n barhaus, felly i gael yr wybodaeth ddiweddaraf awgrymwn eich bod yn ymweld â gwefan y PSBA, sef www.PSBA.org.uk

Tîm llywodraethu Rhwydwaith PSBA

Cymorth Prosiect PSBA
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5674
Ebost: psba@wales.gsi.gov.uk

Logicalis (UK) Ltd

Parc Busnes Cefn Coed
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd,
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 848688
Ebost: psba.communications@uk.logicalis.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA

Cynrychiolwyr Sector PSBA

Mae pob sector yn cael ei gynrychioli'n ffurfiol yn strwythur llywodraethu'r prosiect:

Cadeirydd y Bwrdd Defnyddwyr

Phil Evans
Pennaeth Gwasanaethau TG
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ffôn: 01443 864006
Ebost: evansps@caerphilly.gov.uk

Iechyd

Peter Stansfield
Hysbysu Gofal Iechyd
Ffôn: 01656 678120
Ebost: peter.stansfield@ihc.wales.nhs.uk

Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Dave Morgan
Rheolwr Gwasanaethau Rhwydwaith
Prifysgol Morgannwg
Ffôn: 01443 482444
Ebost: djmorgan@glam.ac.uk

Llywodraeth Leol

Dave Hylands
Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ffôn: 01978 292300
Ebost: dave.hylands@wrexham.gov.uk

Roedd yr holl wybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg. Dylech wirio gyda ni bob amser am unrhyw ddiweddariadau.